

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023

Cadeirydd: Cynghorydd S.Rahaman

Is-gadeirydd: Cynghorydd N.Goldup-John

Cynghorwyr: M.Harvey, A.R.Lockyer, A.Lodwig, P.A.Rees,
S.H.Reynolds, P.Rogers a/ac C.Williams

Swyddogion sy'n Bresennol: C.Griffiths, S.Curran a/ac P.Chivers

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir.

3. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2024

Darparodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r adroddiad yn y pecyn agenda. Byddai'r cynigion gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, os cânt eu gweithredu, yn effeithio ar gydnabyddiaeth ariannol Aelodau yn y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

Penderfynwyd: Bod y Pwyllgor yn ystyried y penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2024/25 ac yn gwneud sylwadau arnynt.

Penderfynwyd: Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ymateb ar ran Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gan adlewyrchu'r penderfyniad a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Penderfynwyd: Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cyhoeddi Cwestiwn 4 o'r ddogfen ymgynghori i'r holl aelodau etholedig a'r aelodau cyfetholedig er mwyn iddynt ymateb iddo yn unigol.

5. **ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r adroddiad yn y pecyn agenda ac atgoffodd yr aelodau fod cymorth ar gael i unrhyw aelod a oedd yn dymuno llunio adroddiad blynyddol.

Gofynnodd yr aelodau faint o adroddiadau blynyddol sydd wedi'u cynhyrchu ers yr etholiad diwethaf.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd mai ychydig iawn o adroddiadau blynyddol oedd wedi eu cynhyrchu a bod pob adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor. Nodwyd y gall technoleg gyfredol ganiatáu i adborth aelodau gael ei lunio mewn gwahanol fformatau eraill.

Penderfynwyd: Argymhellir, ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r ffaith nad oes angen asesiad effaith integredig, fod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi Cynllun Adroddiad Blynyddol yr aelodau a bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfathrebu â'r holl aelodau drwy e-bost, i'w hatgoffa o'r cynllun a'u gwahodd i gwblhau adroddiad blynyddol os dymunant.

6. **ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AELODAU**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r adroddiad yn y pecyn agenda ac amlinellodd y polisi cyfredol mewn perthynas â phroses Adolygu Datblygiad Blynyddol yr Aelodau.

Penderfynwyd: Argymhellir, ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r ffaith nad oes angen asesiad effaith integredig, fod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn:

- Nodi'r Cynllun Adolygu Datblygiad Personol Aelodau
- Cymeradwyo y bydd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfathrebu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a grwpiau gwleidyddol i archwilio carfan o aelodau presennol i ymgymryd â'r hyfforddiant i gynnal Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau.
- Cymeradwyo y bydd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfathrebu â'r holl Aelodau drwy e-bost, i'w hatgoffa o'r cynllun a'u gwahodd i gwblhau Adolygiad Datblygiad Personol os dymunant.

7. **CYNNIG I SEFYDLU GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR YMDRIN AG AFLONYDDU, CAM-DRIN A BYGYTHIADAU I GYNGHORWYR**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd drosolwg o'r adroddiad yn y pecyn agenda ac amlinellodd y cynnig i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Croesawodd yr aelodau'r syniad o sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen a dywedasant fod newid wedi bod o ran gweithredoedd ac agweddau pobl ers y pandemig, gyda lefelau uwch o gam-drin ar-lein. Nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol edrych ar wybodaeth a all fod ar gael ym maes addysg, a nodi pam y bu newid mewn diwylliant ac unrhyw faterion sylfaenol.

Penderfynwyd: Argymhellir bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn:

Cymeradwyo sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag aflonyddu a bygythiadau i Gynghorwyr, gan hyrwyddo diogelwch cynghorwyr ar lefel leol.

8. **CYNNIG I SEFYDLU GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH.**

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y cynnig i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas â diweddaru Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth y cyngor. Os caiff ei gymeradwyo, byddai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Aflonyddu, Cam-drin a Bygythiadau yn rhedeg ar yr un pryd.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd gwahodd sefydliadau allanol i gymryd rhan o dan gylch gwaith y grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gellid gwahodd sefydliadau allanol o dan gylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i sicrhau bod y grŵp mor eang â phosib, a mater i aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd penderfynu pwy y gallent ystyried clywed ganddo.

Penderfynwyd: Argymhellir bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ganolbwyntio ar ddatblygu cam nesaf Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar gyfer y cyngor, gan ystyried datblygiadau cenedlaethol a blaenoriaethau lleol.

9. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

**Cynghorydd S.Rahaman
CADEIRYDD**